

# Glas

Bwletin misol  
*Llên*  
natur  
Rhif 168  
Chwefror 2022

gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



Y Goeden Unig  
Llanberis  
Llion Griffiths

Cyhoeddir **Glas** gan **Gymdeithas Edward Llwyd**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wikipedia  
Cysylltwch â ni trwy [llennatur@yahoo.co.uk](mailto:llennatur@yahoo.co.uk)



## Adar y Wladfa - Luis Carrizo



*Geranoaetus polyosoma* - Ñanco (yn Sbaeneg) - yn Nhrevelin - Patagonia 2021 Luis Carrizo

Enw arall arno fo yw bwncath cefngoch, *Buteo polyosoma*, red-backed hawk.

Sylwch bod yr enw generig gwyddonol wedi newid – arwydd o ansicrwydd y gwybodusion ynglyn â thras yr aderyn. Ystyr *polyosoma* yw “amrywiol o ffurf”. Mae’n enw addas iawn gan i sawl is-rywogaeth gwahanol iawn eu patrwm lliwiau fodoli ac nid yw eu statws tacsomogol wedi ei gytuno.

Mwy o wybodaeth yn y WiciCymraeg [Bwncath cefngoch](#).

## Ynysu’r cwmpawd



### HEDDIW MEWN HANES 16 Rhagfyr 1819

Yn Porth Ysgo ar y 16eg o Rhagfyr 1819, daeth y "Brig" Bristol a'i chriw i ddiwedd trist iawn. Roedd ar ei ffordd o Gaerdydd i Lerpwl efo llwyth o haearn, pan gafodd ei dal mewn storm fawr ai gyrru ar y creigiau. (Credwn fod ei llwyth o haearn, wedi effeithio ar ei chwmpawd, a dyna pam ddaeth y Bristol mor bell oddiar ei chwr).

Sut mae llongau yn cario haearn fel cargo (neu unrhyw haearn o ran hynny) yn llwyddo i ynysu eu cwmpawd rhag cael ei wyro? (Gwefan [Rhiw.com](#))

Mae peth haearn ar bob llong a ni ellir ei atal rhag effeithio ar y cwmpawd. Mae’n rhaid gwneud cywiriadau gyda’r tir mewn golwg cyn mynd i’r môr. Dylid cofnodi’r cywiriad ar “compass card”. Deallaf weithiau byddai capteiniaid yn arfer hwylio mewn cylch er mwyn cofnodi sut fyddai’r cwmpawd yn ymateb. Ond yn ddiamau roedd pethau'n anos gyda llwyth o haearn.

Jackie Wilmington



Magnets are positioned to reduce the effect of the ship's permanent [Magnetization of the compass](#).

Wikipedia



Mae cywiro am yr haearn yn perthyn i wneuthuriad y llong yn UN peth - mae cargo o haearn yn rhywbeth arall efallai?

Llên Natur

Mae'n rhaid cywiro cwmpawd llong i gymryd ystyriaeth o bethau gall dylanwadu arno.

Richard Gwyn Neale

Cofio cael traferth efo cwmpawd ar y Cullins ar Ynys Skye. Diolch byth aru r niwl glirio - Haearn yn y graig. [Gabbro](#) - Cullins ydy'r lle gorau yn y byd i astudio daeareg hen losgfynydd

Geraint Thomas

Oes gan rhywun enghriff o'r "Compass Cards" i rannu gyda ni?

## Goroesi tywydd caled y gaeaf



**Gwilym A Roberts:** Mae gan y wiwer lwyd well siawns na llawer i greadur arall o oroesi tywydd caled y gaeaf, trwy bod ei bwydlen mor amrywiol.

(Lluniau 7/12/2021)

Hefo'r fath gyflwr mae dyn wedi gadel y byd ynddo, 'chredwn i fyth ein bod mewn sefyllfa i farnu ar y difrod mae creaduriaid eraill yn gwneud. Y ffaith yw, pa bynnag broblem sy'n codi ei ben ym myd natur. Un ai iddo fod yn wiwer lwyd, *mink* neu unrhyw greadur arall, fedrwyh fentro mai gwreiddyn y broblem fuasai dyn, yr anifail mwyaf difrodus a fynychoedd y ddaear yma erioed.

Gwilym A Roberts

Mae gwiwerod coch a llwyd yn destun trafodaeth gyson ar dudalen FB Cymuned Llên Natur. Edrychwn ymlaen am fwy am y wiwer lwyd yn rhifyn Glas yn y dyfodol agos. Dyma [ddolen am y postiad](#) hwn am y tro.

Llên Natur

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!



Cysylltwch gyda ni: [llennatur@yahoo.co.uk](mailto:llennatur@yahoo.co.uk)



## Wici'r Holl Ddaear !



### Cystadleuaeth Wici'r Holl Ddaear (Cymru)

Ein Alun Williams ni oedd enillydd y gystadleuaeth ddiweddar hon. Ac Alun gafodd yr ail safle (hefyd!)... allan o 2000 o gynigion.

Darllenwch fwy yma [Wikipedia Commons](#) - Cystadleuaeth "Wiki Loves Earth 2021 in Wales". Bydd y 10 llun gorau yn rhan o gystadleuaeth fyd eang.

## Llyn Cwm Orthin dan rew – a sglefrwyr

### 27 Rhagfyr 1844 - Beddgelert:


■ **Ffynhonnell:** Dyddiadur William Searell o Feddgelert (Archifdy Sir Conwy)

■ **Nodiadau:** *cooking apple pudding*  
*skating Cwm Orthin lake*

Dyma'r hyn ysgrifennodd John Kington 'Climate and Weather' (2010, Collins): December 1844: cold easterly spell, keen frost, -6°C on 6 December; 26-31 December, slight thaw, fog, rime frost. Mae hyn yn awgrymu bod llynnoedd y mis hwnnw wedi cael sbelen o o leiaf 20 diwrnod i rewi er nad oedd hyn yn gyfnod nodedig o oer fel y cyfryw. Yn ôl Wicipedia 'Saif [y llyn] i'r gorllewin o dref Blaenau Ffestiniog, 1,070 troedfedd uwch lefel y môr. Amgylchynir y llyn, sydd ag arwynebedd o 22 acer, gan chwareli llechi, ac ar un adeg fe ddefnyddid ei ddŵr i gynhyrchu pŵer i beiriannau'r chwareli. Mae'r afon sy'n llifo o'r llyn yn llifo i mewn i Llyn Tanygrisiau.

Yn Hanes Plwyf Ffestiniog a'r Amgylchoedd (W. Jones (Ffestinfab), 1879. t46-47) fe gawn: "Yng ngauaf caled 1878 rhewodd [Llyn Cwmorthin] drosto, a bu ugeiniau lawer yn ei ysglerio. Yr oedd trwch y rhew yn chwe' modfedd. Plymiwyd y llyn mewn amrywiol fannau, a chafwyd ef mewn un man yn 53 o droedfeddi, ac mewn un arall yn 40 troedfedd; y drydedd gwaith 35, y bedwaredd gwaith 63, a'r tro diweddar 30. Yr un tymor croeswyd ef gan asyn a phwn ar ei gefn, o dan arweiniad bachgen dewr; ond ymddengys mai gwrthod ddarfu y ci. Dewisodd yn hytrach ei amgylchynu, a hwyrach mai y ci oedd y doethaf: yn sicr efe oedd ddiogelaf." Paul Williams

Gaeaf mwyn oedd gaeaf 1877-78 felly mae'n debyg mai at aeaf 1878-79 y cyfeiria Ffestinfab (yn anffodus nid yw'n cyfeirio at y mis). Yn ôl Kington eto, roedd y flwyddyn hon yn 'flwyddyn heb haf' gyda 'weeks of sub-freezing temperatures in December 1878'.



Deiagram o [Thermoclein](#) - Wikipedia.

Gyda dyfnder o fwy nag 19 metr mae'n debyg bod thermoclein yn bresennol yn nyfroedd Llyn Cwm Orthin. Golyga hyn bod dŵr y wyneb yn ddi-rew nes bydd y dŵr cynnes gwaelodol wedi codi i'r wyneb ac mae hynny'n cymryd amser. Dyna un o'r rhesymau pam fod llynnoedd bas (fel [Llyn Ogwen](#) a [Llyn Dinas](#)) yn rhewi'n gynt ac yn amlach.




Llun o Ddydd Calan 2011 (wedi ei rannu o'r blaen o bosib). Doedd hi ddim yn saff i fentro ar y rhew bryd hynny!

Paul Williams


## Adroddiad Tywydd Huw Jones

Dyma adroddiad tywydd olaf Huw H. Jones oherwydd salwch. Hoffem ddiolch iddo am ei haelioni a'i barodrwydd i rannu ei wybodaeth a'i arbenigedd dros y blynyddoedd aeth heibio.






# Dyddiau hudolus ddiwedd 2021




Cerys Angharad




Iolo Hughes



Gerwyn Williams



Scott Saunders



Sharon Roberts




Steve Woodward



Mair White



Awen McDougall



Erwyn Jones




David Jones



Rhian Cadwaladr



Fiona Jones



Meryl Roberts



Lion Griffiths



Denise Williams



## Offer cefn gwlad: y gaseg naddu



Oes rhywun yn gwybod beth ydy hwn? Mewn coedwig ger Gobowen, 17 Rhagfyr 2021.

■ Shaving Horse yn Saesneg, er mwyn dal gwaith coed.

Katie Roberts Tyler

■ Ceffyl i wneud gwaith coed. 'Dach chi'n eistedd arno a'ch traed ar y darn isaf, sy'n gwasgu lawr ar y coedyn mewn clamp. Felly mae'r ddwy law yn rhydd i drin y coedyn.

Mari Williams

■ Set saer

Stan Massarelli

■ Yn dal i fod y teclyn gorau i ddal pren ar gyfer ei naddu pan fo'r pren ddim yn sgwar nac yn syth. Dyma [fideo](#) ar **Youtube**: *How to Build a Shave Horse? Bowyer's Woodworking Dream. Traditional Handmade Vice for Wood Carving.*

Eryl Davies

■ Caseg naddu. Hen declyn lle bo modd clampio darn o bren â'r ddwy droed er mwy rhyddhau'r dwylo i drin y pren. Defnyddid yn bennaf efo 'drawknife', ac yn ffordd effeithiol o siapio coesau a stylod cadeiriau. Teclyn poblogaidd ymysg y sawl sy'n gweithio â choed ffresh. Dyma un adeiladais y llynedd

Geraint Taid Edwards

Mi fasen ni'n falch o glywed am eich profiadau a'ch llwyddiannau wrth wneud neu ddefnyddio'r gaseg



## Mwy am 'laswellt y gwyntoedd'

Yn rhifyn [Glas 167](#), dangoswyd un o effeithiau Storm Arwen fel plethwaith naturiol o ddail rhydd glaswellt y *Molinia caerulea* (neu wellt y bwla – enw arall yw *flying bent!*) ar ffensus mynydd Pwll yr Iwrch ger Maesteg. Wel, ers cyhoeddi hwnnw dyma dderbyn cofnod arall o union yr un peth, eto yn y de, gan Lyn Evans.

■ Meddai Lyn: "Do mi fues yn lwcus tu hwnt i gael lluniau o hyfrydwch cywrain gwaith natur a gwyntoedd 80 milltir yr awr a ddaeth yn sgil storm Arwen. Bu'n rhuo brynhawn a thros nos, Gwener y 26<sup>ain</sup> Tachwedd.

(Gwyntoedd o 81 mya wedi eu cofnodi dros nos yn Aberporth). Y gwyntoedd nerthol wedi chwipio a chwythu porfa'r mynydd yn erbyn a thrwy y ffens ddefed sydd ger maes parcio Bwlchgywynt ([llun 3](#) o gornel ochr yr hewl i faes parcio 'Bwlchgywynt' - enw rhyfedd o addas yn y cyswllt yma !!) ac ar ochr y ffordd fawr - y B4329 o Eglwysrwr i Hwlfordd, Sir Benfro. Digwydd i mi drafeilio ffordd yna wrth fynd a gwartheg tew i Hwlfordd y bore Llun canlynol ac aros ar y ffordd nôl i gael lluniau sydd, o edrych yn fanwl, yn waith cywrain dros ben. Trafeilio wedyn ffordd yna yr wsnos ganlynol ac mi roedd y glaw a gwynt o gyfeiriad gwahanol wedi diffetha bron y cyfan, felly hyfryd fod camerau pobol wedi gallu cofnodi 'y weithred' gywrain hyn". Storm o'r gogledd neu gogledd-orllewin oedd hon, yn chwythu yn fras o'r dde i'r chwith yn y lluniau.



## Beth yw hon?



Oes na unrhywun sy'n gallu deud wrtha beth yw hon? Ai rhyw fath o ffosil sy yn y carreg hon? Nes i ddarganfod hi ar y foryd yng Nghaernarfon mis Awst dwetha.

Siaron Gardiner James

Carreg calchfaen - tyllau wedi gwneud gan 'rock boring bivalves' *Lithophaga* er mwyn cael y calch i greu'r gragen. Darne melyn *calcite* mewn gwythien.

Ray Humphreys

Mae hynny'n gyfareddol. Dwi'n meddwl bo hi'n brydferth. Diolch yn fawr iawn Ray Humphreys.

Siaron Gardiner James

Mae'n edrych fel tyllau pidogau i mi - *Pholalidae* - *pidocks* yn Saesneg

Davyd Fear

■ Dyma'r daearegydd Math Williams: 'Mae nifer o greaduriaid bach digon cyffredin ar hyd ein glannau sy'n tyllu a naddu cerrig traeth. Yn eu plith mae sawl molwsc dwygragenog, mwydon *polychaete*, a sbyngau. Mae'r [erthygl](#) yma'n gryno: *Stones with holes made by Wrinkled Rock Borers (& other seashore creatures)*'




## Tymheredd ar ei ben i lawr

Mae awyr cynnes yn ysgafnach nag awyr oer. Bu'n syndod felly bod gwaelodion Ynys Môn ar 19-20 Rhagfyr 2021 yn oerach na thir uwch Eryri cyfagos. OND... fel arfer, fel rydyn ni i gyd yn gwybod, ac am resymau gwahanol, mae'r tymheredd yn gostwng wrth ddringo mynydd. Ond ddim y diwrnod hwn. Dyma fwy am wrthdroad y tymheredd a dyma'r ddolen: [gwrthdroad y Tymheredd](#).



Gwrthdroad tymheredd ddoe (20 Rhagfyr) yn ymyl Aberhonddu

Steve Woodward



Dyma ddeigram o daith Dafydd Richard Hughes yr un diwrnod

**Allwedd:** Llwyd → Uchder Du → Tymheredd

Coch → Pentref Nant Peris Glas → Pen y Pass


Gwyrdd → Pentref Nant Gwynant

## Dau ddiwrnod o Ragfyr


WeatherRadar  
Llanrug  
14:23

weather & radar  
Available for   
as of: 19 December 2021

A dyma'r darlun mawr y diwrnod hwn



A hefyd ar y 19 Rhagfyr mi welodd Bill Glyn Jones y bwgan niwl hwn o ben y Mynydd Mawr



Ynys Lawd prynhawn yma 19 Rhagfyr 2021. Banc niwl. David Jones



Cymylau rhyfeddol dros Ynys Môn a Chaernarfon heddiw (19:12:21) o Rosgadfan a Cilgwyn Rhian Cadwaladr




Roeddet yn gallu gweld mynyddoedd Iwerddon, Ynys Manaw ac Ardal y Llynnoedd uwch y cymylau o ben yr Wyddfa! Rhyfeddol 19 Rhagfyr. Elen Huws



Machlud haul a gwrthdroad tymheredd, Nant Gwrtheyrn, 19 Rhagfyr 2021. Gav Jones

## Hupa Tonga a Hupa Ha'apai...



Mae Gethin Pritchard, rheolwr gorsaf dywydd Maes Gwynedd, Waunfawr, wedi llwyddo i adnabod y don o newid gwasgedd yn sgil ffrwydriad Hupa Tonga-Hupa Ha'apai a bashiodd ei orsaf rhwng 17.30 ac 18.30 ar 15 Ionawr 2022.

■ Ffaith diddorol "...and an eruption in January 2015 (?) created a new island about 2 kilometers wide -- effectively joining up Hunga Tonga and Hunga Ha'apai islands."

Crewyd ynys newydd yn yr un ffordd ar Surtsey oddiar Wlad yr Ia yn y 1963 ac mi sefydlwyd yr ynys fel labordy byw gyda gwahardd ymweliadau heb fod dan reolaeth (er mwyn astudio coloneiddiad naturiol yr ynys o foelni llwyr i wyrddni). **OES RHYWYN YN GWYBOD HYNT YR 'ARBRAWF' HWN ERBYN HYN?**

■ Gobeithio gawn ni faddeuant pobl Tonga am drin eu trallod fel ymarferiad gwyddonol. Cefnogwn pob apêl am gymorth wrth gwrs.

■ Ydi hi'n rhy ffansiol i awgrymu bod yr holl machludon a gwawriau lliwgar sydd wedi tynnu eich sylw yn ddiweddar (enghraifft yn y ddolen) yn effaith [echdoriad Tonga?](#)

Llên Natur



## Gleiniau a Ffynhonnau



Wedi darganfod y garreg yma heddiw [26 Rhagfyr] yn hen ffynnon Sant Gwenfaen, Rhoscolyn sydd yn bedair mil oed. Lle mae hi wedi dwad o?

Oswyn Williams

■ **Nodyn Golygyddol: pwrpas rhannu'r postiad hwn yw cofnodi trafodaeth diddorol ac onest gan bawb, nid awgrymu bai mewn unrhyw ffordd.**



Dwi'n cael fy nhynnu ddwy ffordd wrth feddwl am ymateb i'r postiad hwn. Ar y naill law mae angen cadw'r offrymau gwerthfawr (os dyna be ydyn nhw) rhag mynd ar ddisberod, ond ar y llaw arall oni ddylid parchu'r traddodiad o roi offrymau yn y lle cyntaf. Be dach chi'n feddwl? Cwestiwn syml: pwy sy' biau'r garreg? 'Y ffynnon', meddai Linda Pritchard yn bendant. Ydi ffynnon yn gallu bod yn berchen ar rhywbeth tybed. Diddorol!

Llên Natur

“Ddigon teg”, meddai Oswyn, “dwi am gael y plant i'w taflud yn dol i'r ffynnon”.

Dyma ateb **Math Williams**, daearegydd: “[Turquoise](#) (*Turquoise as a Mineral and Gemstone | Uses and Properties | geology.com*) yw hwn. Mwy na thebyg daw o siop cofroddion sy'n gwerthu darnau bach o fineralau.”

Fel un o sylfaenwyr a chyn Gadeirydd “Cymdeithas Ffynhonnau Cymru” fy marn i yw y dylid gadael offrymau o'r fath mewn ffynhonnau neu safleoedd cysgredig/ysbrydol. Ar ddiwedd y dydd maent wedi eu gosod neu eu taflu i'r ffynnon yn benodol fel rhan o gred (gau neu wir) a dylid parchu hynny. Roedd llawer yn cyrchu at y ffynnon i gael gwellhad o iselder ysbryd ac afiechydon y meddwl yn gyffredinol. Yn wir mae Lewis Morris yn cyfaddef ei fod ef ei hun wedi ymweld â Ffynnon Wenfaen yn gyson. Gwerthfawrogi penderfyniad Oswyn Williams i'w dychwelyd i'r ffynnon. Cafodd y ffynnon ei glanhau gan y tir feddianwr yn 2009. O bosibl wedi ei gosod yn y ffynnon yn ddiweddar mae'r garreg yma. Fel ma sawl un wedi nodi, nid carreg werthfawr mohoni mwy na thebyg, carreg o siop deunydd crefft neu gofroddion diweddar.

Dewi Lewis

Diolch am hynny, ddiddorol iawn. Dwi 'di trio fo fy hun, ella angen trio ail waith! Mae 'na rhywbeth hudolus am ffynhonnau dwi di ceisio ffeindio pob un dwi'n medru yn yr ardal, un newydd i mi yn diweddar yn fferm Moelyci, dod i fyny trwy gwreiddiau coeden derw. Wna i tynu llun a postio tro nesa dwi'n mynd.

Sarah Collick

Yn gwneud synwyr rhoi maen gwerthfawr yn offrwm i Sts Gwenfaen

Twm Elias

“Roedd llawer yn cyrchu at y ffynnon i gael gwellhad o islder ysbryd ac afiechydon y meddwl yn gyffredinol. Yn wir mae Lewis Morris yn cyfaddef ei fod ef ei hun wedi ymweld â Ffynnon Wenfaen yn gyson;


*Full oft have I repaired to drink that spring waters which cure diseases of the soul as well as body, and which always prove the only remedy for want of sense*

Yn ei gerdd “*The Sacred Well of Gwenfaen, Rhoscolyn*” fe noda fod angen offrymu dwy garreg chwarts wen, hynny yw, cerrig swyn i Wenfaen. Roedd digon o'r cerrig hyn i'w cael yn yr ardal. Diddorol yw nodi hefyd fod enw'r santes yn gyfystyr â charreg wen.


*Two white spar stones is all thou dost expect as a free offering for both sense and health*

“Ffynhonnau Cymru” Cyfrol 2 Eirlys a Ken Gruffydd (Gwasg Carreg Gwalch 1999)

Sarah Collick



## Wyau siobyn yn yr ardd



Cofiwch wefan Llên Natur: **Y BYWIADUR**




Wyau siobyn (dwi'n tybio) ar goeden gellyg yn yr ardd heddiw. Wedi eu dodwy ar yr hen chwiler - (Blaenau Ffestiniog). *Orgyia antiqua* - vapourer moth - 15fed Ionawr 2022

Paul Williams




\* Gyda her ychwanegol : llythrennau dwbl !



n	a	n	i	g	f	e	i	l	i	a	i	d	g	w	y	ll
i	g	w	a	l	c	h	t	a	c	a	d	a	r	b	y	d
c	o	e	d	a	n	w	a	t	u	c	r	ll	ê	n	g	l
o	c	a	s	s	b	y	w	l	e	o	t	i	n	m	i	s
o	h	l	m	i	s	a	s	g	r	e	c	h	i	o	n	a
w	r	c	y	ll	t	i	t	w	g	d	r	a	w	n	o	r
g	y	f	r	e	s	d	t	y	u	d	a	l	e	n	i	b
l	a	n	t	a	c	a	t	l	h	c	r	ë	y	r	w	a
o	n	a	d	n	o	dd	j	a	c	d	o	i	b	a	w	b
c	y	m	u	n	e	d	ll	n	ê	n	b	a	c	h	n	a
t	u	r	d	y	m	s	r	o	h	i	i	f	y	d	u	n
c	a	n	t	ch	w	e	d	d	e	c	n	o	c	e	ll	l
g	w	y	th	a	r	dd	e	ch	r	a	u	b	w	r	y	dd
y	n	d	w	y	f	i	l	d	a	u	dd	e	g	y	d	a
u	d	y	m	a	ch	w	i	d	r	u	d	w	e	n	l	a



□□□□□□□ y □□□□ □□□□□□ □□□□ □□□ a□□□□□ □□ □□□□□□□□



□□□□□□ □□□□ □□□□□□ □□□ y □□ □□□□



□□□□□ □□□□ □□□□□□ y □□□□ □□□□□□□ □□□□